

CWLWM

Mudiad Chwiorydd
Undeb Bedyddwyr Cymru

MEDI
2020

Rhif 64

Golygydd:
Einir Jones

Pris 50c



Taflen Gyswllt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru

Cynnwys

Golygyddol

Cyfarchion gan Is-lywydd y Mudiad

Hau, Medi a Diolchgarwch, gan y Parchg Glandwr Roberts.

Enwau Capeli, Rhan 2

Cyfarchion o Glyn Nest

Diolch yn Fawr

Teyrnged i'r Parchg Islwyn Davies

Cyfarchion gan Gadeirydd Pwyllgorau Glyn Nest

“Mae” gan Mererid Hopwood

Lleuad Fai 2020 gan Falmai Puw Davies

Cymanfa Dinbych Fflint a Meirion a'r Cofid 19

Trysorau'r Pandemig gan Catherine Jones

Pytiau o Ruthun gan Mair Lewis

Y Cyfnod Clo

Rhywbeth i'w gnoi

Adroddiad yr Ysgrifennydd

Atgofion

Blanced Gobaith o Liwiau'r Enfys

Golygyddol

Mae gen i Venetian Blinds ar ffenestri ffrynt y tŷ yma a dyna bethau da ydyn nhw. Gan bod y rhesdai yma yn wynebu'r de-orllewin a bod ambell i bnawn wedi bod yn dra heulog yn ddiweddar (er dechrau boreol digon cymylog ac anaddawol) mae'r ystafell eistedd mor olau ambell bnawn nes fy mod yn ddall yno am dri! Troi y pren hir felly ar ochr llenni y tair ffenest a newid slatiau'r bleinds o bwyntio i lawr i bwyntio i fyny ac mae hi'n gysgodol braf yno eto. Ond wedi cau y cyrtens o ddefnydd gyda'r nos dros Gyrtens Fenis, a heb feddwl am newid ongl y slatiau, pan fyddai'n agor y llenni defnydd sydd drostynt yn y bore, mae hi fel afagddu am 6.30—7.00 a bydd rhaid i mi ail-osod y tri bleind er mwyn cael golau ar bethau.

Felly mae hi mewn bywyd yn aml. Rydyn ni'n trefnu pethau mewn un ffordd ac yna, rhaid eu newid eto i gael unrhyw lewyrch. Jyst am ein bod ni wedi arfer gyda threfn gapelyddol a system addoli fel ag yr oedd hi, d'yw hi ddim yn dweud na allwn ni newid yr ongl a chael goleuni gwell pan fo'r amgylchiadau wedi newid.

Fi sy'n addasu gyda'r pren troi pethau rownd ar Gyrtens Fenis y gegin ffrynt. Yr un slatiau ydyn nhw, dim ond yr ongl sy'n newid arnyn nhw. Ac mae Duw am gael cyfle i agor ein meddyliau ni yn unigol ac fel grwpiau yn ystod y dyddiau rhyfedd a thywyll yma. Jyst am bod y settings oedfaol wedi bod fel hyn ers canrifoedd a chenedlaethau, 'dyw hynny ddim yn dweud nad oes posibilrwydd a gorwelion newydd a rhyfeddol i'w gweld os mentrwn ni newid pethau ar orchymyn ein Harglwydd. Ati felly, i agor bleinds ein ffenestri fel Daniel gynt a wynebu'n gyson i gyfeiriad Duw. Dair gwaith y dydd roedd yn wynebu tua Jeriwsalem meddai ei lyfr. Ok, unwaith y dydd i chi te! Gewch chi weld a fyddwch chi am weddïo mwy! (Fetiai y byddwch! Pe bai ond i ddiolch am holl drugareddau yr Arglwydd – na ddarfu amdanom ni!) Gol.

Os garech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y.b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

Carn Ingli, 97 Ffordd y Coleg, Rhydaman. SA18 2BT

Neu ebost:

einir.jones@yahoo.co.uk / jtalfryn@yahoo.co.uk

Cyfarchion gan Is-lywydd y Mudiad

Ruth Davies



Cyfarchion atoch i gyd! Fy mwriad oedd gwahodd aelodau'r Mudiad i ddathlu ein cyfarfodydd blynyddol yn y Tabernacl, Caerdydd eleni. Ond yn amlwg, oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19, nid oedd hynny i fod. Credwch neu beidio rydym yn ôl yn y Tabernacl yn cyd-addoli bob nos Sul ers diwedd Gorffennaf. Bu nifer o'r swyddogion yn paratoi yn drylwyr er mwyn sicrhau ein diogelwch ac y mae canllawiau gofalus yn eu lle. Roedd naws arbennig yn y gwasanaethau a phawb yn mwynhau cymdeithasu o flaen y capel ar ddiwedd yr oedfa – gan gadw at y pellter o ddwy fedr wrth gwrs!

Mae'n debyg fod llawer ohonoch, fel fi, wedi cael cyfle i wneud tasgau oedd yn disgwyl cael eu gwneud ers amser yn ystod y misoedd diwethaf. Un dasg oedd yn disgwyl amdanaf i oedd sgwennu ychydig o hanes fy nhaid, sef y Parchedig Thomas Bassett. Bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Seion, Ynys Galch, Porthmadog am chwe blynedd cyn symud i Galfaria, Blaenrhondda am 31 o flynyddoedd. Dywedwyd yn ei wasanaeth angladdol mai'r gair 'gwasanaeth' oedd yn dynodi ei fywyd.

'Gwasanaethodd ei eglwys â thrylwyredd mawr iawn; gwasanaethodd ei ardal, ac roedd ei gyfraniad i waith yr enwad yn un tra helaeth. Yr oedd nid yn unig yn Gristion capel ond yr oedd yn ddinesydd cyflawn'. Tipyn o deyrnged gan ei aelod seneddol.

Mae'r cyfnod clo yn ystod y misoedd diwethaf wedi dod â'r gorau allan o lawer o bobl a gwelsom gymaint yn rhoi eu gwasanaeth mewn amryw ffyrdd. Dyna wrth gwrs yw dyletswydd pob un ohonom. Daeth adnod o'r ganfed Salm yn ôl i mi, 'Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd; dewch o'i flaen ef â chân'. Dyma'r fersiwn ddysgais i fel plentyn, ond nid yw'r gair 'gwasanaeth' yn ymddangos yn y fersiynau mwy diweddar o'r Beibl. Wrth wasanaethu ein cyd-ddyn yr ydym yr un pryd yn gwasanaethu ein Harglwydd.

Hyderaf eich bod yn cadw'n iach ac mewn hwyliau da. Mawr obeithiaf y cawn ddod yn ôl at ryw fath o normalrwydd yn fuan, a chael cyfle i ail-gydio yng ngweithgareddau'r Mudiad.

Hau, Medi a Diolchgarwch

Marc 4, 26-29

Y Parchg Glandwr Roberts, Tycroes

Dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion bod Teyrnas Dduw yn debyg i ddyn yn bwrw had i'r ddaear, yna yn mynd o gwmpas ei waith arferol ac y mae'r had yn egino a thyfu mewn modd nas gŵyr efe. Mae yna ddirgelwch yn y cyfan. Er i ddyn baratoi y tir a hau yr had, nid yw natur ei dyfiant a'i ddatblygiad yn perthyn iddo ef. Ond mae'r ddameg yn dangos perthynas arbennig dyn a Duw yn llwyddiant y Deyrnas. Mae'r ddameg yn ein hatgoffa o ddau beth sy'n angenrheidiol i lwyddiant yr efengyl.

Perthynas yr had â'r ddaear

Er nad oes gan ddyn ddim i'w wneud â chynhyrchiad y ffrwyth ar ôl hau yr had, mae'r ddaear mewn undeb â galluoedd natur. Er bod rheoli'r tyfiant yn guddiedig i ni gan mai'r cyfan a welwn ni yw'r heulwen a'r glaw sy'n disgyn mae dynion yn hau. Maent yn paratoi'r tir a dyfrhau efallai ond Duw sy'n rhoi'r cynnydd.

Mae babanod test tiwb wedi dod yn arferol heddiw ac mae llawer o famau di-blant yn medru diolch i'r meddyg byd-enwog, y Doctor Wilson am eu bababod test tiwb. Y baban cyntaf yn dilyn ei waith arloesol oedd Louise Brown. Mae hithau erbyn hyn yn 44 oed ac yn fam i ddau blentyn a anwyd yn naturiol.

Er holl allu'r Geinacolegydd, nid ef yn y pen draw oedd yn rhoi bywyd i'r hedyn dynol a dechrau'r broses. Gall y gwyddonydd greu had synthetig, ac ynddo holl elfennau yr had natriol. Ond, y mae yna wahaniaeth mawr – nid oes bywyd ynddo na'r gallu i ddatblygu a thyfu. Y mae rhai pethau na all neb ond Duw eu cynhyrchu. Dyn wedi'r cyfan sydd yn sicrhau fod yr amgylchiadau yn iawn er mwyn i'r had dyfu. Er nad dyn sy'n dwyn y deyrnas i fodolaeth, nid yw hynny'n ein rhyddhau ni oddi wrth ein dyletswydd i geisio creu yr amgylchiadau ymhlith dynion fel y gall yr had dynol gael y cyfle gorau posib i weithio ar eneidiau a meddyliau dynion. Felly gall dyfu er gogoniant i Dduw ac yn y Deyrnas.

Perthynas yr Had a'r Heuwr

Yn dilyn hau yr had i'r ddaear, rhaid dibynnu ar alluoedd eraill i wneud eu gwaith. Ni all neb ohonom ruthro'r broses na'i newid i'w siwtio ein hunain. Rhaid dysgu amynedd. Graddol ac araf yw tyfiant a datblygiad Duw, yr egin yn gyntaf, yna tywysen, yna yd yn llawn yn y dywysen. Heb fynd drwy'r camau graddol hyn ni ddaw datblygiad cyflawn.

Nid oes neb wedi deffro unrhyw fore a chael ei hunan yn wyddonydd neu gerddor. Nid yw gwybodaeth yn datblygu yn gyflym. Nid oes neb yn gweld ffrwyth ei waith ar unwaith a gweld hedyn yn datblygu mewn byr amser ond gadael y broses naturiol i gymryd ei hamser. Mae gweinidogion cydnabyddedig yn treulio tair blynedd o baratoi gogyfer y weinidogaeth ac wedi eu hordeinio i hau yr had. Ychydig ohonom sy'n gweld ffrwyth ein llafur. Gan amlaf, eraill sy'n dwyn y cynhaeaf i mewn wedi ein cyfnod ni.

Nid oes dim byd mwy grymus na grym tyfiant. Mae pob un ohonom wedi sylwi fel y mae ychydig chwyn hyd yn oed yn llwyddo tyfu trwy goncrit ac yn ei gracio trwy eu tyfiant. Dyma'r nodyn hyderus yn y ddameg.



www.bing.com

Mae nifer o ddarllenwyr Cwlwm mae'n siwr yn cofio y rhyfel diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd capel yn Llundain wedi bod yn brysur yn addurno ar gyfer y cwrdd Diolchgarwch. Wedi i'r aelodau addurno gyda'r blodau a'r ffrwythau oedd ar gael, roedd tywysennau o yd wedi eu gosod o gwmpas grisiau'r capel. Ond ar y nos

Sadwrn cyn y ddydd dathlu bomiwyd y rhan honno o'r ddinas a dinistriwyd y capel.

Aeth yr Hydref a'r Gaeaf heibio ac yn y Gwanwyn gwelwyd gwyrddni egin yn dod i'r golwg yng nghanol y rwbel. Wedi i'r Haf basio ac i'r ail Hydref ddod, yr oedd yr yd yn tyfu'n braf.

Ni allodd y bomiau na'r tân a ddilynodd atal yr ŷd a gariwyd i Dŷ yr Arglwydd rhag tyfu. Mae angen amynedd wrth fod ynglyn â gwaith yr Arglwydd heddiw. Duw yn y pen draw sy'n dwyn ei Deyrnas i rym.

Mae'r had yn dal i gael ei hau. Mae cariad a thrugaredd Duw yn dal i greu amgylchiadau sy'n gymwys i dyfiant. Er yr holl gasineb sydd yn y byd, ni ellir dinistrio nac atal dyfodiad y Deyrnas. Yn y diwedd bydd y cynhaeaf yn barod i'w gynaeafu. Bydd Teyrnas Iesu yn dwyn ffrwyth i fywyd tragwyddol.

Enwau Capeli

Rhan 2

Einir Jones

Mae'r erthgl hon yn barhad ar yr un ymddangosodd yng Nghwlmw Mai 2020. A yw enw eich capel chi yma tybed? Os na, *nil desperandum*. Mae un arall eto i ddod i gloi y gyfres. Dyna ddiddorol yw enwau a'u hanes a'u cysylltiadau ondyfe?

Philadelphia – Ystyr Philadelphia yw cariad brawdol. Mae sôn yn llyfr y Datguddiad am yr eglwys honno yno yn Nhwrci. Gosododd Iesu o'i blaen 'ddrws agored na ddichon neb ei gau'. Eglwys fach wan oedd Philadelphia ddiwedd y ganrif gyntaf ond mae wedi cadw gair Iesu ac heb wadu ei enw. Anogaeth Iesu iddi yw 'Glyna wrth yr hyn sydd gennynt rhag i neb ddwyn dy goron.' Geiriau addas iawn i unrhyw eglwys lle mae cariad brawdol yn bodoli.

Engedi – ystyr En yw ffynnon ac mae Engedi yn sbring yn tarddu hyd heddiw yn y brynau diffaith sy'n amgylchynnu'r Môr Marw. Ystyr yr enw yw Ffynnon yr Afr Ifanc. Treuliodd Dafydd amser yma yn cuddio rhag Saul. Yma hefyd bu brwydr hefyd rhwng byddin Jehoshophat a'r Amoniaid a rhoddodd Duw y fuddugoliaeth heb i bobl Jiwda orfod codi cleddyf na bys i ymladd. Trwy weddi y daeth yr ateb. (Mae'r hanes yn 2 Cronicl, pennod 2).

Baran – Treigladd ydyw o Paran, yma bu Ishmael fab Abraham fyw yn yr anialwch. Mae'r fan i'r de o Beersheba yng nghanol diffaethwch a mynyddoedd calchfaen sy'n ymestyn draw o dde Jwdea hyd Sinai yn Arabia heddiw. Ceir sôn am y lle yn Genesis, Brenhinoedd, y Salmau a Deuteronomium. Dihangodd Dafydd yma hefyd wedi marwolaeth Samuel.

Gethsemane – Man lle y tyfid coed olewydd oedd yr ardal yma ar lethrau Mynydd yr Olewydd ac mae'n rhaid bod Iesu yn ymwelydd cyson yno gyda'r ddigybion. Roedd Jiwddas yn gwybod yn dda am y fan fel lle i gyfarfod meddai Ioan. Mae dwy safle yno nawr, un gan yr Eglwys Roegaid a'r llall gan y Pabyddion, y ddwy ardd yn eithaf agos at y lle gwreiddiol. Dinistriwyd honno yn llwyr yn nyddiau cwmp Jeriwsalem yn 70 O.C. ond mae'n eithaf tebygol mai disgynyddion y coed rheini y bu Iesu'n chwysu danynt sy'n tyfu yno heddiw.

Cana - Lle yn ardal Galilea oedd Cana, ychydig i'r gogledd ddwyrain o Nasareth ac yno yr oedd y briodas yn cael ei chynnal pan drodd Iesu'r dŵr yn win. Yno hefyd yr oedd Iesu pan anfonodd y bonheddwyr ato a gofyn a fyddai'n gwella ei fab oedd ar farw. Roedd y mab yn wael yng Nghapernaum, filltiroedd i ffwrdd, ond gwellodd Iesu ef gyda gair ac o bell. Mae'r ddau hanesyn pwysig am ddau arwydd cyntaf Iesu ar gael yn Efengyl Ioan.

Paradwys - Mae'r enw yn dod o'r Lladin, Paradiso, sef 'gardd y brenin' yn yr hen Bersieg. Golygai hyn barc hardd gyda mur o'i amgylch y dyddiau hynny (fel Windsor Great Park heddiw). Mae Iesu yn addo i'r lleidr edifeiriol y bydd gydag Ef yno. Mae Paul yn dweud iddo gael ei gipio yno. A hefyd mae Ioan yn disgrifio'r lle yn y Datguddiad. Seiliwyd y darlun ar Eden, yr ardd hyfryd, golledig honno yn Genesis.

Macpelah - enw mynwent yn aml yw Macpelah a dyma'r enw gwreiddiol ar y cae a'r ogof a brynodd Abraham gan Ephron yr Hethiad er mwyn iddo gael tir i gladdu Sarah. Mae'r fan yn cael ei disgrifio ei 'bod o flaen Mamre' – h.y. i'r dwyrain o Hebron. Yma y claddwyd Leah, Isaac, Rebecca a Jacob hefyd. Adeiladwyd Mosg dros y fan ers canrifoedd bellach.

Penuel – Wyneb Duw yw ei ystyr, yma bu Jacob yn ymladd gyda'r angel hyd fore wawr ar y noson cyn iddo fynd i gyfarfod ei frawd â'i efaill Esau. Yma y cafodd fendith gan yr angel roedd wedi bod yn *reslo*. Mae'r angel yn newid ei enw ar ddiwedd y frywdr ac yn dweud nad Jacob y twyllwr fydd mwy ond Israel. Mae'r stori ddiddorol yn Genesis 32.

Elim – Roedd yno saithdeg o goed palmwydd a deuddeg ffynnon. Gwerddon – *oasis* ydoedd - yng nghanol yr anialwch pan deithiai'r hen genedl tua Sinai ar ôl gadael yr Aifft. Maent yn gadael dyfroedd chwerw Mara ac yn dilyn arweiniad Duw i Elim lle cant orffwys 'dan y palmwydd clud lle yr eistedd pererinion ar eu ffordd i'r nefol fyd.' Coed mawr yw'r ystyr.

Libanus – man enwog iawn am goed da, tyfai fforestydd cedrwydd anferth ar lechweddau'r bryniau. O Libanus y daeth y coed i adeiladu'r Deml trwy gytundeb a drefnwyd rhwng Hiram brenin Libanus a Solomon. Lebanon yw'r enw ar y wlad heddiw, gwlad y clywsom lawer amdani yn ystod Awst, ac mae i'r gogledd o Israel. Meddai Eseia, 'Nid digon Libanus i gynnu tân.'

Tabor – enw mynydd a'r copa lle digwyddodd y Gweddnewidiad yn ôl rhai. (Yn ôl eraill, Hermon—oedd yn y gogledd wrth darddle'r Iorddonen gan ei fod yn nes at Cesarea Phillipi - oedd y mynydd uchel). Mae Tabor yn ymddangos yn yr hanes diddorol o Lyfr y Barnwyr, yma y concrwyd Sisera gan fyddin Israel dan Barak y Barnwr gyda Deborah y broffwydes yn ei annog. Jael, gwraig Heber y Cenead a roddodd y *coup de gras* i Sisera tra roedd yn cysgu ac yn cuddio mewn pabell. (Ddwedai ddim mwy heblaw bod peg pabell a morthwyl wedi eu defnyddio ganddi).

Tirsah – lle prydferth a hyfryd iawn yn ôl Caniad Solomon oherwydd mae'r arwr yn y gerdd serch yma yn cymharu ei gariad i'r fan. Dinas yng ngwlad Canaan oedd hi ac fe gafodd ei choncro gan Joshua. Dyma'r enw hefyd ar un o ferched Zelophehad y cawsom glywed amdanynt yn ein Cwrdd Gweddi nôl yn Nhachwedd 2018, os gallwch chi gofio mor bell â hynny yn ôl!

Bethesda – llyn yn Jeriwsalem gyda phum portico colofnog o'i gwmpas sy'n ymddangos yn hanes Ioan am y dyn cloff a iachawyd ar y Sabbath. Am ganrifoedd doedd dim coel ar yr hanes ond yn wir,

fe ddarganfyddwyd y fan gan archeolegwyr a'i gael yn union lle mae Ioan yn ei ddweud yr oedd, wrth Borth y Defaid. Tŷ Trugaredd neu Tŷ Dyfroedd sy'n Llifo yw ei ystyr. Yma roedd cleifion yn casglu gan bod y dŵr yn rhinweddol ar adegau pan fyddai angel yn ei gynhyrfu. *Sbring* oedd yno mae'n debyg.

Ebeneser – Maen ein Cymorth. Cofadail o garreg a gododd Samuel i gofio am fuddugoliaeth byddinoedd Israel dros y Philistiaid. Roedd Duw wedi anfon storm fawr o genllysg i greu ofn ar y gelynion. Gosododd Samuel y maen ar yr union fan lle roedd y Philistiaid wedi troi a rhedeg am adref, er mwyn i bobl Israel gofio pwy yn union oedd wedi rhoi'r fuddugoliaeth iddynt.

Bethania – Ystyr yr enw yw Tŷ Ffigys neu gartref lle mae coed ffigys. Roedd Bethphage (Tŷ Datys) gerllaw yn rhywle. Yma roedd Lazarus a Mair a Martha yn byw. Pentref ydoedd ger llethrau Mynydd yr Olewydd, heb fod ymhell o Jeriwsalem ac roedd Iesu yn aros yno dros ddechrau'r Wythnos Fawr. O'r ardal y daeth yr asyn gariodd Iesu i mewn i Jeriwsalem ar Sul y Blodau.

Ruamah – Trugaredd yw'r ystyr. Man lle mae cael trugaredd yw'r man lle rydyn ni'n cyfarfod â Duw yn Iesu Grist, felly enw addas iawn i gapel. Merch Hosea y proffwyd oedd hi, ei ail blentyn, ac mae'i henw yn ymddangos yn ei lyfr fel Lo-Ruamah (**dim** trugaredd). Dywed y proffwyd mai felly y bydd Duw yn trin Israel, fydd Ef **ddim** yn dangos trugaredd oherwydd ei hanufudd-dod iddo.

Berea – tref ym Macedonia, y dalaith Rufeinig yng ngogledd Groeg, y ceir sôn amdani yn llyfr yr Actau. Aeth Paul yno gyda Silas a Thimotheus pan oedd y tri wedi gorfod ffoi o Thessalonica sydd ychydig i'r gogledd. Yno fe wnaethon nhw bregethu'r efengyl. Roedd y bobl yn Berea yn rhesymol a chall gyda meddyliau agored ac yn bobl oedd yn barnu'n deg meddai Luc wrthym.

Dyna ddigon am y tro yma. Mwy tro nesaf.



Cyfarchion o Glyn Nest

Rhesymau i fod yn llawen.

Hyd yn oed yn ystod y cloi i lawr!

1. Teimlo'n ddiogel

Bu deiliaid yn rhannu cyfrifoldeb am gadw'n ddiogel trwy gymryd rhan yn llawen mewn trefniannau golchi dwylo a hylendid gofalus, rheolaidd.

Hyd yn oed yn y dyddiau dyrus rhain, caiff deiliaid Glyn Nest y cysur bod cymorth cyfredol iddynt gan feddygon a nyrsys Meddygfa Emlyn, y nyrsys lleol diwyd a staff Fferyllfa'r Bont. Bu ymgynhori naill âi'n bersonol neu trwy alwadau fideo fel bo'r galw – diolch GIC!

Gŵyr y deiliaid bod yr holl staff yn cadw golwg ar eu hiechyd eu hunain am unrhyw arwyddion posibl o goronafeirws ac yn hunan-ynysu os oes yr amheuaeth lleiaf, gan leihau'r perygl o ymlediad Covid 19 yng Nglyn Nest

2. Peidio teimlo'n unig

Mae deiliaid a staff wedi bod yn cefnogi ei gilydd ac yn chwilio am resymau i chwerthin a chael hwyl, a gweddïo am well amseroedd: dathlu pen-blwyddi; chwarae gemau gyda'i gilydd; gwasanaethau dan arweiniad deiliaid, gyda chefnogaeth y Parchg Irfon Roberts.

Pabell y Cyfarfod yng Nglyn Nest



3. Wrth i gyfyngiadau godi ychydig, archebwyd pabell i'w gosod y tu allan i'r cartref er mwyn i deulu a ffrindiau ymweld â'u hanwyliaid am gyfnod byr, drwy apwyntiad.



Gwaith Yr Egin Gwyrdd



Deiliaid a Staff Glyn Nest tu allan yn cymeradwyo GIC

Diolch yn fawr

Cafodd staff a deiliaid Glyn Nest eu cyffwrdd yn fawr gan garedigrwydd a haelioni ein cymuned leol, oddi wrth ddieithriaid a hefyd oddi wrth deuluoedd a chyfeillion ein deiliaid, ein cefnogwyr teyrngar, capeli lleol ac aelodau Undeb y Bedyddwyr.

Llifodd cyfraniadau i mewn ers cychwyn y cloi i lawr, gan gynnwys rhoddion i godi'n calonnau (blodau, siocledi a chacenni), a rhai i'n cadw'n ddiogel (menig a wnaed gyda chariad, a bagiau golch).

Cawsom hefyd aml i lythyr caredig a lluniau i ysbrydoli oddi wrth blant lleol, a hefyd rai oddi wrth Bwyllgor yr Egin Gwyrdd, sef pwyllgor Ysgolion Sul Cymanfa Penfro; golygodd eu meddylgarwch a chyfarchion cynnes lawer i'r deiliaid.

Weithiau rhaid wrth argyfwng i sylweddoli'n llawn gymaint y gwerthfawrogi eich ymdrechion – ar ran ein staff ymroddgar, hoffwn ddiolch i chi oll am eich cefnogaeth anferthol.

Eich meddyliau caredig a'ch dymuniadau cynnes, yn ogystal â'ch cydweithrediad amyneddgar gyda chyfyngiadau amddiffynnol, sydd wedi rhoi i ni'r cryfder i bara i ymladd i gadw Glyn Nest yn hafan ddiogel i'r deiliaid.

Yr oeddem wedi bwriadu dathlu pen-blwydd 50 Glyn Nest yn hwyrach eleni, ond wrth gwrs mae wedi ei ohirio.

Fodd bynnag, unwaith y bydd pethau'n weddol normal, ac y bydd ein drysau eto ar agor, edrychwn ymlaen at groesawu pawb ohonoch i ddathliad hwyr, arbennig iawn!

Diolch eto i chi i gyd am eich cefnogaeth werthfawr.

Cadwch yn ddiogel

Jayne Evans

Rheolwraig



Teyrnged i'r Parchg Islwyn Davies

Gan y Parchg Irfon Roberts

Darllenais mewn rhifyn diweddar o'r Seren deyrnged y Parchedig Ddr. Desmond Davies, Caerfyrddin, i'r Parchedig D. Islwyn Davies - teyrnged lwyr haeddiannol i un a gyfrannodd gymaint i'w enwad a thu hwnt iddo fel pregethwr, gweinyddwr a bugail. F'unig fwriad wrth ysgrifennu fel hyn yw rhannu â darllenwyr Cwlwm ein balchder i Glyn Nest gael y fraint o weini i'w anghenion adeg y cyfnod o ddwy flynedd a hanner y bu gyda ni cyn ei farw.



Y Parchg D. Islwyn Davies

llun:buw.org.uk

trwy ganiatad

Undeb Bedyddwyr Cymru

Ni fu rhwng muriau'r Cartref neb mwy gwerthfawrogol o'r gofal dderbyniodd. Ei air cyntaf, bron yn ddieithriad, fyddai diolch. Diolch fyddai ei air olaf hefyd. Diolchai am bob caredigrwydd ddoi i'w ran, am bob ymweliad ac ymwelydd yn ei dro ac am bob sgwrs a chyfle i hel atgofion am oedfaon a phregethwyr a hen ffyddloniaid a gofiai. Ymhyfrydai mewn cael arwain rhai o wasnaethau addoli y Cartref, ond yr hyn a roddai'r mwyaf o hyfrydwch iddo oedd gwrando ar weinidogion eraill yn canmol y Meistr y bu iddo ef dreulio'i fywyd yn ei ddyrchafu a'i ganmol. Tystia pawb a'i hadnabu iddo fod yn

ŵr hawddgar ac addfwyn - yn ymgorfforiad o'r gostyngeiddrwydd hwnnw sydd i nodweddu'r Cristion. Er yn gaeth i'w gadair taflodd ei gysgod dros weddill deiliaid y Cartref gan brofi ei hun yn esiampl loyw o'r math ymddygiad y disgwylir i ddilynwr Iesu ei arddangos. O'i glywed yn siarad a rhannu o'i brofiad buan iawn y

sylweddolem ein bod ym mhresenoldeb rhywun gwahanol - ei fod yn berson i'w edmygu a'i barchu. Daw i gof eiriau o'i ddarlith 'Addoli A'r Pregethwr'. (Darlith Goffa Dewi Gravelle yng Nghalfaria Clydach, Medi 1997.) "Person yw Duw. Person i'w adnabod yng Nghrist. Person sy'n galw pobl i berthynas bersonol a chyfamodol ag Ef ei Hun drwy Grist. Person i'w garu."

Cofir Islwyn Davies fel un a oedd mewn cymaint cariad â'i Dduw fel iddo gysegru ei ddoniau helaeth i'w wasanaethu. Mawrygwn ein braint i ni yng Nglyn Nest gael yr anrhydedd o'i hebrwng y rhan olaf o'i daith a diolchwn i'w deulu am ei ymddiried i'n gofal.

Deisyfwn ar i Dduw fendithio ei briod Beti, ei feibion Hywel ac Iwan, ei ferched yng nghyfraith Susan a Katherine, ei wyrion Rhys, Elidir, Aled ac Osian, ei or-wyrion Ethan ac Emelia, yn ogystal â Trefor ac Eluned, y ddau ohonynt yn uchel eu parch gennym fel enwad. Derbyniwyd er cof am Islwyn swm anrhydeddus iawn o arian – cyfraniad yn adlewyrchu'r parch mawr a oedd iddo – a diolchwn i'w deulu am fynegi mewn modd ymarferol fel hyn eu gwerthfawrogiad hwy o ofal staff Glyn Nest o'u hanwylun.



Y Parchg D. Islwyn Davies a'i briod, Beti
yng Nghartref Glyn Nest.

llun:buw.org.uk
trwy ganiatad
Undeb Bedyddwyr Cymru

Cyfarchion gan Gadeirydd Pwyllgorau Glyn Nest



Deiliaid a Staff Glyn Nest

Diolchgarwch diffuant

Mae'n rhyfedd eistedd wrth fy nesg a hithau heddiw'n ddydd Sul. Diwrnod y buaswn fel arfer yn treulio fy amser yn cyflenwi fy nyletswyddau gweinidogaethol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn amseroedd rhyfedd, ansicr a digynsail a chan ein bod oll yn ofidus am bosibilrwydd yr hyn allai ddigwydd, byddai'n anonest ohonof i esgus fel arall. Mae'r pandemig cyfredol, sydd yn barod wedi dinistrio cymaint o fywydau ac wedi peri'r fath ddifrod i'n heconomi a'n ffordd o fyw, yn para'n fygythiad. Fel cartref fodd bynnag, yr ydym wedi gwneud pob trefniant posibl i sicrhau lles ein deiliaid a staff ac ni fedrwn ond gweddïo y profant yn ddigonol mewn pryd i bawb.

Hoffwn, ar ran y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn ogystal â Phwyllgor Tŷ Glyn Nest, ddiolch i bob un sydd ynghlwm wrth fywyd a rhedeg y cartref am eu hymdrechion diffuant ers torri'r newyddion am ymosodiad y feirws Covid 19. Mae ein rheolwraig tŷ, Jayne Evans, i'w channol yn fawr am y ffordd y mae wedi cadw rheolaeth ar y sefyllfa. Cydnabyddwn yn rhwydd safon ei harweiniad a'r modd y mae wedi cyflawni ei dyletswyddau gyda'r fath egni a dewrder ers diwrnod cyntaf y pandemig. Mae ei llwyddiant wrth gadw'r gelyn draw hyd yma yn deillio bron yn gyfan-gwbl o adwaith aelodau o'r staff sydd wedi ateb yr her gyda hi. Dim ond ar adegau fel hyn y

syweddolwn beth allwn ei gyflawni, ein hydwythder a'n dibyniaeth ar ein gilydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i deuluoedd a chyfeillion ein deiliaid am ufuddhau i'n dymuniad ar iddynt gadw draw o'r Cartref yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gwn na fu hyn yn hawdd i neb ohonynt. Er bod siarad ar y ffôn neu gysylltu trwy gyfrwng *Skype* neu *Zoom* yn gymorth, nid yw cystal â chyfarfod wyneb yn wyneb a medru cyffwrdd ein gilydd.

Cyffwrdd – mae medru cofleidio a chusanu yn hynod bwerus ac iachaol. Mae gwyddoniaeth feddygol wedi cadarnhau pa mor hanfodol yw cyffwrdd i fabanod ac fe bery ei bwysigrwydd gydol oes pawb ohonom. Dangoswyd fod cyffwrdd yn gwella ein system imiwnedd, lleihau poen, a gostwng pwysedd gwaed. Mae cyffwrdd yn cyfleu agosrwydd ac yn aml yn dweud mwy na geiriau. Gall hefyd olygu gwahanol ystyron: cysuro, rhybuddio, ceryddu a chariad. Gymaint yw pwysigrwydd cyffwrdd, fel y dywedir am ryw ddigwyddiad emosiyniol, y cawsom ein 'cyffwrdd' ganddo. Mae hyd yn oed y ffaith bod cymaint wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf o 'gyffwrdd amhriodol' yn tystio i bŵer cyffwrdd.

Un o felltithion pennaf y pandemig cyfredol yw ei fod yn gwahardd cyffwrdd. Gymaint felly fel ein bod yn awr yn sôn am 'ddiffyg cyffwrdd'. A gâf i, ar ran y rhai ohonoch sydd ag anwyliaid yng Nglyn Nest ddiolch i'r gofalwyr o fewn i'r Cartref am fod yn ddwylo i chi? Mae'r hyn a wnânt yn gofyn dewrder, synnwyr dyletswydd cryf a chydymdeimlad mawr. Yn yr holl flynyddoedd y bûm yn ymwneud â Glyn Nest ni fûm erioed yn fwy balch nac ar hyn o bryd. Diolch hefyd i'r Swyddogion Gweithgaredd a Gweinyddol a Staff Cegin, Cartrefol a Golchdy. Mae ganddynt oll ran i'w chwarae ac y mae mor bwysig â'r lleill i lesiant y deiliaid. Mae'r deiliaid eu hunain yn haeddu ein canmoliaeth.

Diolch iddynt am gadw'n hunanfeddiannol dan yr amgylchiadau ac am gefnogi ei gilydd. Gwn eu bod hwythau hefyd yn werthfawrogol o bob peth sy'n cael ei wneud ar eu rhan.

Colled Drist

Ar nodyn trist ofnadwy, mae'r staff a'r deiliaid yn dod i delerau â

chollod enbyd yr aelod staff Janet Jones a hunodd ar y 13eg Mai, yn Ysbyty Glangwili, oherwydd cymhlethdodau ar ôl triniaeth fawr. Ymunodd Janet â Glyn Nest ym mis Ionawr 2018 ac, yn ogystal â dod yn aelod tîm gwerthfawr, fe'i cofir gan y deiliaid fel cyfaill caredig, meddylgar a llon, nad oedd unrhyw gais am gymorth byth yn ormod o drafferth. Daeth deiliaid a staff allan i'r haul ar fore Iau 21ain Mai i ddangos parch at Janet wrth i'r orymdaith angladdol fynd heibio Glyn Nest. Dangosodd y gymeradwyaeth a gychwynnodd lawn cymaint yr oedd wedi ei olygu, i gymaint o bobl. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda'i theulu a'i ffrindiau. Bydded i Dduw eich bendithio ar yr adeg anodd hon.

Yr eiddoch yn gywir,

Y Parchedig Irfon Roberts

Cadeirydd Bwrdd Rheoli Glyn Nest

Deg Gorchymyn Newydd

Siaradwch gyda phobl eraill. Does dim fel gair i godi calon.

Ceisiwch gofio enwau pobl. Mae'n dda clywed ein henwau yn cael eu galw weithiau.

Byddwch yn ostyngedig. Mae rhywbeth i'w ddysgu gan bawb gyfarfyddwn ni.

Byddwch yn gyfeillgar. Rhaid bod yn ffrind i gael ffrind.

Byddwch yn raslon. Ceisiwch siarad ac ymddwyn fel petae popeth yn rhoi pleser i chi.

Talwch sylw i eraill. Fe allwch lwyddo i weld rhywbeth diddrol ym mhawb os edrychwch ddigon.

Byddwch yn hael gyda chanmoliaeth ac yn ofalus rhag beiriadu pawb a phopeth yn llym.

Byddwch yn ystyriol o deimladau pobl eraill bob amser.

Byddwch bob amser yn barod i wasanaethu.

Rhowch eich gair a'i gadw.

Mae

(Comisiynwyd gan S4C ar ddechrau Cyfnod Clo 2020)

Mae dail y coed, mae border bach,
Mae murmur yn yr awel,
Mae un friallen fach ar lawr,
Mae cân am benrhyn tawel.

Mae parabl plant, mae munud fach,
Mae llun y gallwn glywed,
Mae ifanc, ffôl, mae Elen fwyn,
Mae aros, ac mae myned.

Mae dau gi bach, mae tiwn Sam Tân,
Mae môr a phadell ffrio,
Mae Mistar Duw, mae gwely gwag,
Mae 'O na bawn i yno'.

Mae grug ac eithin, nawfed ton,
Mae storm a'i sŵn, mae curlaw,
Mae gwên un enaid hoff cytûn,
Mae canol llonydd, distaw.

Mae paid bod ofn, mae calon lân,
Mae cwm lle'r wyt ti'n Arglwydd,
Mae man lle'r oeda'r haf yn hir –
Mae teyrnas diniweidrwydd.

Mae ger y drws a blodau tlws,
Mae eiddil heb eiddilwch,
Mae pishyn, pishyn, fenws fain,
A thacsi i Gwm Tawelwch.

Mae carreg wen, mae lan y môr,
Mae eto'r teim yn tyfu,
Mae jî ceffyl bach, a chamfa wen,
Mae esgid fach yn gwasgu.

Mae Far-rock-away, mae 'yma o hyd',
Mae'r enw 'sneb yn 'i gofio,
Mae'r môr yn fur, mae'r bur hoff bau,
Mae'r anthem 'gad mi lithro'.

Mae dawns y glaw, mae'r nos yn hir,
Mae cloc y tipian araf,
Mae pen y lôn, mae cael yn ôl,
Ac wedi'r awr dywyllaf.

Dros gymoedd cul a moelni maith,
Dros greigiau pen y mynydd,
Drwy niwl y wawr ... mae haul ar fryn -
Daw dydd, daw bore newydd.

A thrwy'r holl ymynysu hwn,
Mae calon Cymru'n curo,
A'i phobl fel y tir dan draed
Drwy'r saib yn ailegino.

Ac os o hyd bod llinell bell
Ddi-derfyn ... gwn fod darfod,
Mae dyddiau blin yn dod i ben,
Mae amser gwell yn dyfod.

Mererid Hopwood

Lleuad Fai 2020

(Anfonwyd y gerdd hon ataf gan Buddug Medi ar ran ei hawdures, Falmai Puw Davies. Roedd Buddug yn teimlo ei bod yn haeddu lle yn y Cwllwm ac mae Falmai wedi rhoi ei chaniatâd i mi ei chyhoeddi. Diolch i'r ddwy am eu traffeth yn ysgrifennu a phostio.)

Does dim tawelwch
Trydar adar yn canu.
Does dim cymylau
Clywch grawcian y brain,
Does dim swn plant.
Tractorau'n tenor-eiddio,
Loriau'n cartio
Faniau'n dilifro.
Clywch y barcud coch
A'i grawcian croch,
Yn gysgod dros bawb.

Titw Tomos yn bwydo,
Robin Goch yn clwydo.
Cawod drom a tharan
Enfys yn lliwio'r cyfan.
Daw'r lleuad dlos
I oleuo'r nos,
Weithiau'n goch
A disgleir-wyn.
Daw enfys wedi'r glaw.

Falmai Puw Davies

Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion

A'r Covid 19

Gan Ann Owen, Fforddlas

Yr oedd y newyddion trist o Covid 19 wedi ein syfrdanu i gyd mae'n siwr, a gorfod hunan-ynysu yn beth na wnaethom ei ddychmygu yn ein hamser ni ond bu raid i ni ufuddhau i reolau'r Llywodraethau. Bu yn ofid i ni i gyd orfod cau drysau ein haddoldai, hefyd, ddim yn gwybod am faint y byddent ar gau a'r holl reolau o'u hagor eto sydd yn ofid i lawer ohonom.

Yn ystod y cyfnod clo fe gawsom fel aelodau o'r Gymanfa '*Munud i Feddwl*' wedi eu paratoi gan y Parchg. Tecwyn Ifan a'r cyntaf ohonynt oedd ar y testun 'Emyn'. Rwyf yn meddwl fod yr emyn a ddewisodd yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau heddiw. Er ein bod, mae'n siwr wedi ei chanu sawl gwaith efallai ein bod heb ystyried y geiriau yn iawn. Gobeithio y byddant yn gysur i ni ar yr amser dyrys yma ac y cawn agor drysau ein haddoldai yn ddiogel eto heb unrhyw rwystr ac y bydd Duw yn ein gwarchod a'n bendithio ni i gyd. Dyma'r emyn o eiddo Eben Fardd:

O fy Iesu bendigedig, unig gwmni f'enaid gwan, ym mhob adfyd a thradollion dal fy ysbryd llesg i'r lan; a thra'm teflir yma ac acw ar anwadal donnau'r byd cymorth rho i'm ddal fy ngafael ynot ti sy'r un o hyd.	Rhof fy nhroed y fan a fynnwyf ar sigledig bethau'r byd, ysgwyd mae y tir o danaf, darnau'n cwmpo i lawr o hyd; ond os caf fy nhroed i sengi yn y dymestl fawr a'm chwyth, ar dragwyddol graig yr oesoedd, dyna fan na sigla byth
--	--

Pwyso'r bore ar fy nheulu,
colli rheini y prynhawn;
pwyso eilwaith ar gyfeillion,
hwythau'n colli'n fuan iawn;
pwyso ar hawddfyd - hwinnw'n siglo,
profi'n fuan newid byd:
pwyso ar Iesu, dyma gryfder
sydd yn dal y pwysau i gyd.

Eben Fardd

Trysorau'r Pandemig

Catherine Jones, Sir Fôn

Pennawd rhyfedd meddech chi, a ninnau yng nghanol cyfnod anodd na welwyd mo'i debyg a'r hunan-ynysu a'r cyfyngiadau yn ein gwneud ni, bobl brysur, yn ofnus a rhwystredig. Ond yn wir, efallai y dylem werthfawrogi.

Nid rhwystredigaeth ydyw mewn gwirionedd ond cyfle i ni oedi a gwerthfawrogi yr etifeddiaeth ragorol sydd gennym. Llai o gerbydau ar y ffordd a natur yn ffrwydro – y blodau gwylltion yn eu gogoniant i ddenu'r gwenyn i fela, blodau'r ddraenen ddu a'r ddraenen wen “oll yn eu gynnu gwynion”. Yr adar bach i'w gweld a'u clywed yn canu – dim peiriannau i chwalu eu haelwydydd na boddi eu cân. Edrych allan trwy ffenest y gegin a gweld teulu o gwningod ar y cae (ac yn yr ardd) ac yn cofio hysbyseb OXO erstalwm – Mawr, bach, llai, lleiaf (pla!). Ffesantod a'u cywion a pharau o betris (y gynnu ‘yn segur yn y gist’!) a neb yn cynhyrfu dim. Ond y tawelwch yn gwneud i rywun bach, llechwraidd fod yn hy’ gan yrru pob un ohonnynt o'i diriogaeth ef – do, daeth carlwm bach llancaidd heibio a chiliodd pawb i chwilio an noddfa newydd. Minnau'n syllu ac yn rhyfeddu at holl drysorau natur sy'n rhy niferus i'w henwi,

‘Pob peth cain a phrydferth a phob creadur byw,

Pob peth sy'n ddoeth a rhyfedd, fe'u gwnaethpwyd oll gan Dduw.’

Trysor arall a amlygodd ei hunan yn y cyfnod hwn yw cymdogaeth dda yn ail-afael a phobl yn fwy parod i ymestyn allan i helpu'r bobl hŷn a'r bregus a'r rhai sy'n profi caledi a thlodi ac yn dibynnu ar y banciau bwyd, y rhai sy'n teimlo unigrwydd neu'n wynebu profedigaeth a'r pandemig yn rhwystro teuluoedd a ffrindiau rhag ymweld, cofleidio a chysuro. Diolch am ffôn, ebost, skype a Zoom a FFRINDIAU.

‘Anrheg gorau bywyd yw ffrindiau.

Mae ffrindiau da'n gwneud amseroedd da yn well ac amseroedd anodd yn haws.’

Y trysor pennaf ond un heddiw yw'r Gwasnaeth Iechyd. Er ein bod ni'n aml yn feirniadol, mae ymroddiad y meddygon, y nyrsus, y gofawyr, teuluoedd a phob aelod o'r tîm yn amhrishiadwy, a'u gofal diflino yn rhyfeddol. Diolchwn amdanynt.

Ond, ein trysor pennaf yw yr Un y medrwn droi ato ar bob achlysur drwy ein bywyd i gyd.

‘O Grist, ffisigwr mawr y byd,
Down atat a'n doluriau i gyd;
Ni does na haint, na chlwy, na chur
Na chilia dan dy ddwylo pur.

Down yn hyderus atat Ti.
Ti wyddost am ein gwendid ni;
Gwelhad a geir ar glwyfau oes
Dan law y gŵr fu ar y groes.’

Pytiau o Ruthun

Mair Lewis

Dyma ni yn cyrraedd y chweched mis o'r hunan ynysiad, mae'r haf bron â mynd a'r tymhorau wedi newid yn arw. Mae hi'n amser rhyfedd iawn, ond dyna ni, rhaid gwneud y gorau o'r gwaethaf.

Diolch bod gennym bwt o ardd sy'n rhoi rhywbeth imi i'w wneud – tyfu dipyn o datws, llysiau a thomatos mewn tybiau. Es ati un diwrnod i wneud cacen, rhywbeth nad oedd wedi digwydd ers rhai blynyddoedd, ond diolch byth nid oeddwn wedi anghofio'r ffordd na'r dull! Trwy garedigrwydd ffrindiau rwyf wedi derbyn jigsaws – maent yn help mawr i basio'r amser, ac rwyf hefyd yn hoff iawn o ddarllen a gwnio. Wrth gwrs dyma gyfle hefyd i fynd trwy'r drors ac edrych ar luniau a rhoi trefn ar bethau.

OND mae colli ymweliadau â theulu, cymdeithasu ac aelwyd ein capel yn achosi llawer o boen ac yn codi hiraeth mawr. Diolch am y ddawn i gyfrif ein bendithion, rydym yn ffodus iawn ein bod yn byw yng Nghymru fach, does dim gwlad debyg iddi. Mae'n wir ddrwg gennyf o waelod calon dros y teuluoedd rheini sy'n byw yn y trefi mawr ac sy'n methu mynd oddi amgylch, a'r plant bach ddim yn gallu mynd allan ac yn colli ysgol.

Rhaid cadw ffydd er hynny y daw pethau yn well – oes mae llawer o drychinebau wedi digwydd ar hyd yr oesau, ond mae Duw wedi bod yng nghanol y cyfan yn arwain ac yn gofalu am ei blant.

Cadwch yn saff bawb a gofalu am eich gilydd.

Bydd y flwyddyn 2020 yn mynd i lawr ac yn aros yn y cof oherwydd y cyfnod anodd, yr anawsterau a'r tristwch y mae pawb wedi bod ynddo. Yn sicr rydym wedi profi pethau gwahanol mewn sawl ffordd, a'n gweddi yw am arweiniad Duw i fod yn bositif ac i ddal ati i fod yn Gristnogion cryfach yn dangos cariad Duw ar waith.

Isod y mae emyn Dechrau Blwyddyn o waith R.E Jones Cynwyd, tad dwy o'n haelodau sef Katryn Roberts a Gwen Wynne, ac er ei bod allan o'r amser priodol mae'n addas iawn i'n harwain ymlaen yn ddoeth a gofalus i'r dyfodol.

Wele ni ar ddechrau blwyddyn
Yn ymgynnull ger Dy fron,
A diolchwn iti'n addfwyn
Am gael byw i weled hon;
Nertha gred pob un ohonom
Mai Tydi yw'r unig Dduw;
Dylanwada, Arglwydd, arnom -
Gwna ni yn aelodau byw.

Dysg ni fod yn fwy defnyddiol
Gyda phopeth iddi fry –
Gwneud ein gwaith yn fwy effeithiol,
Troi'r amheuwyr i dy Dŷ;
Gan fod yma demtasiynnau
Gyda ni yn tynnu'n groes
Rhwystra ni i'w gwneud yn dduwiau
A'u haddoli drwy ein hoes.

Y mae yma ddisgwyl beunydd
Am ryw gyffroadau mawr;
Rho eleni i ni arwydd
Y cawn weled toriad gwawr;
Crea ynom awydd gweithio,
Gwna ni'n gryf y flwyddyn hon;
Cynorthwya ni i lwyddo
I gadw'r Eglwys uwch y don.

R.E. Jones, Cynwyd

Mesur y Dôn – M10/ 87.87 D

Y Cyfnod Clo

...

Pan ddechreuodd y cyfnod clo roeddwn i'r wythnos honno, wedi bod yn cyfeilio i Eisteddfodau Cylch yr Urdd Sir Benfro, gyda'r un ola i'w chynnal yn Ninbych y Pysgod ar Ddydd Llun. Ond oherwydd y feirws ddychrynlyd a oedd yn ymledu'n gyflym, ni chynhaliwyd honno, a chyhoeddwyd gan y Llywodraeth ein bod i gyd mewn cyfnod clo - dim byd i'w gynnal a phopeth ar gau, heblaw am siopau bwyd a fferyllfaoedd. Felly, gan mod i'n berson sy'n hoffi bod yn brysur, ac yn byw bywyd llawn, yn aelod a gohebydd y Wasg o gangen lleol o Ferched y Wawr, yn weithgar yn y capel, yn ysgrifenyddes sawl pwyllgor ac athrawes piano, gallwch ddychmygu yn ystod y mis cynta', mod i braidd gallu 'nabod fy hunan, gyda'r holl amser sbâr oedd gen i. Ie....amser sbâr i lanhau corneli bob ystafell yn y tŷ, oedd heb ddweud 'helo' wrth yr hwfer ers sawl mis, a dod o hyd yn y cypyrddau i bethau oedd wedi mynd yn angof ers misoedd!

Dw i'n hoff o wnïo a gwau, ers yn ifanc, a gan bod amser nawr yn caniatáu, penderfynais ail-gydio yn y gwaith, a llwyddo i greu sgert a ffrog haf a gwau blancedi, a fydd maes o law i'w cyflwyno i anffodusion y Trydydd Byd. Yn naturiol, roedd coginio prydiau yn digwydd yn ddyddiol a'r ffwrn druan, yn gweithio'n galed yn pobi

cacennau, crymbl neu darten i bwddin.....a maint canol Eilir y gŵr, yn tyfu'n raddol bob dydd!!

Bu'r cyfnod ar ei hyd, yn afreal ac ansicr, heb ymweld â theulu, ffrindiau na chymdogion. Y capeli a'r eglwysi wedi cau, dim Cymanfa Ganu, dim Cymanfa Bwnc, dim Eisteddfod Genedlaethol na'r Sioe, dim carafanio, a dim gosod blodyn ar feddau'n hanwyliaid ar Sul y Blodau. Cofiwn yn dyner am yr holl deuluoedd a gollodd anwyliaid oherwydd yr haint felltgedig, cydymdeimlwn â nhw yn eu galar, a daeth y dywediad "Daw eto haul ar fryn" yn eiriau o gysur a gobaith i bawb. Gwerthfawrogwn o waelod calon ymdrechion diflino holl weithwyr y rheng flaen a fu wrthi'n gyson yn trio lleddfu poen y cleifion ac yn cynorthwyo mewn amryw ffyrdd. Halen y ddaear yng ngwir ystyr y gair.

Diolchwn am fendith yr oedfaon wythnosola gafwyd ar y We, a'r Oedfaon Dechrau Canu, Dechrau Canmol gwych a ddarlledwyd ar S4C, fore Sul. Heb amheuaeth, bu'r rhain yn gyfrwng pwysig i'r henoed sy'n gaeth i'w cartrefi ac yn byw yn fynych ar ben eu hunain. Clywais lawer gwaith gan aelodau capeli lleol o'r siom enfawr a deimlwyd ganddynt pan orffennodd y gyfres ... nid wedi diflannu yn barhaol, gobeithio, oherwydd cofiwn bod canran helaeth o'r genhedlaeth hŷn ddim yn medru ymdopi â'r dechnoleg fodern.

Erbyn hyn, mae'r cyfyngiadau wedi llacio tipyn, a theimlad o ychydig obaith yn y tir, er ein bod yn dal i deimlo'n bryderus ac ansicr o'r sefyllfa. Mae'r feirws hwn wedi effeithio ar bawb a phopeth ac ar bob agwedd o fywyd, a'n gwneud ninnau ddysgu bod yn amyneddgar a derbyn bywyd sy'n reit wahanol i'r arfer. Ond yn sgil y ffeithiau negyddol hyn, mae sawl elfen bositif wedi dod i'r golwg sef cymunedau a phentrefi gwledig yn closio at ei gilydd a chyd-dynnu'n ardderchog, a'r gwirfoddolwyr yn fwy na pharod i wneud y siopa, casglu meddygyniaeth, cynorthwyo a chymryd gofal o unrhyw ddyletswyddau posib - mae'n diolch ni'n fawr i chi i gyd.

Mwynhawyd yr wythnosau cynta o'r cyfnod clo, y tawelwch heddychlun a deimlwyd wrth fynd am dro....dim traffig ond sŵn adar yn trydar yn y coed...dim awyrennau ond awyr iach a phur.

Edrychwn ymlaen gyda ffydd i'r dyfodol ... er mor sigledig yw, a rhown ein hunain yn nwylo'r Creawdwr. Bydd rhaid efallai, cyfarwyddo â'r "normal newydd gwahanol" y misoedd nesa', ond cofiwn, pan mae'r storm ar ei gwaethaf, bod Iesu ar ei orau. A fi? Wel...gyda'r amser sbâr, dw i wedi perffeithio'r sgil o siopa ar-lein (!!) ac wedi annog y gŵr i wneud sesiwn o ymarfer corff, bron yn ddyddiol.

I gloi, ga'i ddyfynnu geiriau'r emynydd William Williams, gan obeithio byddant yn estyn llygedyn o obaith i chi...*"Daw, fe ddaw y wawr wen, olau y bo'r cwmwl du yn ffoi, tARTH a niwl yn cyd-ddiflannu a oedd wedi cydgrynhoi: dyma'r oriau 'rwy'n eu gweled draw drwy ffydd"*.

Wendy Lewis, Sir Benfro

Rhywbeth i'w Gnoi



llun: blogspot.com

Efallai bod rhai ohonoch wedi darllen yr erthygl ar Hela Fanila yn y Seren ac yn meddwl tybed beth oedd Rysit y Deisen Fanana lle roedd y Fanila mor hanfodol. Wel dyma hi. Fe'i cefais o'r *Good Food Guide* reit ar ddechrau'r Clwmglo. S'dim ishe dweud mwy nac oes! (Mae'n cael ei gwneud yn yr un sosban felly llai o olchi llestri. Fy math i o goginio!) *Reit. Sut mae ei pharatoi—gweler drosodd:*

125 gram o Fenyn

150 gram o siwgwr

Toddwch y ddau yma yn araf mewn sosban ac iddi waelod da.

Ychwanegwch:

1 llond llwy de o Rinflas Fanila.

Gadewch i'r gymysgedd oeri ychydig, yna, ychwanegwch:

2-3 banana feddal wedi eu malu gyda fforc

1 wy wedi ei guro

190gram o Flawd Codi

60 ml o lefrith

Mae'r gymysgedd yn edrych yn wlyb ond fel yna mae i fod.

- Tun torth mawr (2bwys) wedi ei iro a'i orchuddio'n dda mewn papur menyn.
- Ffwrn 170 (150 i un ffan) $\frac{3}{4}$ Nwy am awr a phum munud (65) yn fy ffwrn i – 45-50 munud mae'n ei ddweud yn y copi gwreiddiol. Rhowch sgiwer ynddi i wneud yn siwr.
- Byddai'n hyfryd yn boeth gyda chwstard neu gadewch iddi oeri. Mae'n cadw am tua thridiau os gallwch chi faddau iddi.

Teisen Lemwn (o gefn Pecyn Siwgwr)

9 owns menyn


9 owns Siwgwr

4 wy

Croen lemwn wedi ei ratio yn fan

9 owns Blawd Codi

Y ffordd arferol sef cymysgu siwgwr a menyn, ychwanegu wyau a blawd a chroen y lemwn. Dodwch mewn tun torth 2 bwys wedi ei iro a'i orchuddio gyda phapur menyn. 50 munud i 60 mewn ffwrn 180.Nwy 4. Dodwch sgiwer ynddi i sicrhau ei bod yn barod. Gadewch y deisen yn y tun ac yna cymysgu sudd y lemwn gyda siwgwr bras/mân. Tywalltwch dros y deisen tra mae'n boeth yn y tun. Oerwch a'i thynnu allan. Mmmmmmm!



Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

Ddarllenwyd annwyl, aeth bron i chwe mis heibio oddi ar i ni gael ein cyfyngu i'n cartrefi ac er i rai cyfyngiadau gael eu codi, a bod gennym bellach fwy o ryddid i grwydro, ni symudwyd ymlaen rhyw lawer. Erbyn hyn taflwyd mewn i'r pair y 'Rheol o Chwech' a gwisgo mygydau tu fewn i adeiladau. Fe ddaeth caniatâd i eglwysi a chapeli ail agor, dim ond iddynt gadw at y canllawiau diogelwch, ond er hynny, gwelwyd mai petrusgar iawn y mae llawer ohonynt. Nifer fach iawn o eglwysi sydd wedi ail agor hyd yma a rhai, oherwydd yr ofn am ail don, hyd yn oed yn sôn am beidio mentro agor eto tan ddechrau 2021.

Cwlwm Medi - Dyma ni felly wedi penderfynu paratoi rhifyn arall o'r Cwlwm a fydd yn cael ei anfon allan drwy e-bost ac yn cael ei osod ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru. Anodd dychmygu sut y gellid dosbarthu dros 400 o rifynnau'n ddiogel yn y sefyllfa bresennol. Diolch i bob un sydd wedi anfon erthyglau gan sicrhau rhifyn swmpus a diddorol arall. Bydd Einir bob amser yn ei anfon i fi er mwyn i minnau gael ei anfon allan ar e-bost ac rwyf wedi cael blas a bendith o ddarllen eich erthyglau—yn arbennig y rhai am y profiadau a'r bendithion a ddaeth i nifer ohonom yn sgil y pandemig. Diolch hefyd i Einir am ei gwaith diflino a'i brwdfrydedd. Hoffwn eich sicrhau y byddwn yn argraffu rhifyn Mai 2020 a rhifyn Medi 2020 pan fydd ein heglwysi unwaith eto'n cyfarfod yn rheolaidd a phan fydd hi'n bosibl i'r dosbarthwyr eu dosbarthu'n ddiogel.

Glyn Nest - Rwy'n ysgrifennu'r pwt yma ar y diwrnod cyntaf o Fedi. Fel arfer fe fyddem wedi cael diwrnod wrth ein boddau yn Nydd Agored Glyn Nest ar y dydd Mercher olaf ym mis Awst ac fe fyddai ein llywydd Eleri Lloyd Jones wedi cael cyfle i ddwyn cyfarchion i'r cartref ar ran y Mudiad. Byddai hefyd, mae'n siŵr, edrych ymlaen mawr wedi bod ar y dydd at ddathliad y cartref yn 50 oed ar y Sadwrn olaf ym mis Medi. Wrth gwrs, dygwyd y ddau achlysur oddi

wrthym yn sgil y Covid-19. Da yw medru dweud i'r cartref fod yn glir o'r firws dieflig hyd yma. Hoffwn hefyd, ar ran y Mudiad, dalu teyrnged enfawr i holl staff y cartref am fynd tu hwnt i'r ail filltir yn ystod y cyfnod anodd hwn ac i'r deiliaid a'u teuluoedd am eu goddefgarwch yn ystod y cyfnod o beidio gallu cyfarfod wyneb yn wyneb. Cawsoch weld sut y bu iddynt ymdopi yn ystod y cyfnod yn yr adroddiadau a'r lluniau a ddaeth o'r Cartref.

Cyfarfodydd Blynyddol 2020 – O sôn am yr hyn a allai fod, rhaid nodi y byddai edrych ymlaen wedi bod hefyd am fynd i'r brifddinas ar 16eg Medi ar gyfer y cyfarfodydd a fyddai wedi dyrchafu Ruth Davies yn Llywydd Cenedlaethol y Mudiad. Diolchir am hynawsedd pawb wrth benderfynu bwrw'r cyfan ymlaen am flwyddyn ac am fodlonrwydd Eleri Lloyd Jones i barhau yn y llywyddiaeth am flwyddyn ychwanegol. Ni ellid gadael i'r dyddiad fynd heibio, fodd bynnag, heb rifyn o'r Cwlwm a fydd, gobeithio, ar y we erbyn y diwrnod hwnnw.

Prosiect nesaf y Mudiad - Hoffwn atgoffa'r chwiorydd y dewiswyd 'Gofal' fel thema'r Prosiect nesaf. Gall y thema gynnwys gofal yn ein cymunedau (banc bwyd yn enghraifft), gofal am y greadigaeth, gofal am y blaned ac yn y blaen. Gall gynnwys gwasanaethau cyflawn; deunydd addoliad; gweddiâu; cerddi neu gyflwyniadau pwyntpŵer. Fel o'r blaen, gofynnir i bob Cymanfa fod yn gyfrifol am un agwedd o'r thema. Os oes gan ryw unigolyn unrhywbeth a fyddai'n addas ar gyfer y prosiect, fe fyddai'r ysgrifennydd yn falch i glywed oddi wrthyh.

Gwau a gwnïo - Atgoffir pawb bod yr ymgyrchoedd yn parhau ac felly os nad ydych eto wedi bod yn gwau neu wnïo, yna ewch ati nawr ar fyrder. Mae'r patrymau a mwy o wybodaeth ar gael gan yr ysgrifennydd (Rhif ffôn: 01239 820333).

Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd - Buan iawn y daw'r dydd Llun cyntaf ym mis Tachwedd. Diolchir i'r Parchg Jill Tomos am fodloni cyfieithu ac addasu'r oedfa ar ein cyfer eleni eto. Ni wyddys eto a fyddwn yn gallu cyfarfod ddechrau Tachwedd ai peidio ond os na, beth am gynnal cyfarfod gweddi - yn lleol neu'n genedlaethol - trwy gyfrwng *Zoom*? Beth amdani?

Y Pwyllgor Gwaith - Er nad ydym fel pwyllgor wedi cyfarfod oddi ar fis Mawrth nac yn debygol o gyfarfod eto am beth amser, mae

wedi bod yn braf cysylltu gyda'r aelodau mwy nag unwaith ar y ffôn. Brafiach fyth oedd cael gwybod eu bod i gyd yn cadw'n weddol iach a'u bod yn cysylltu ag eraill ac yn cynnal ei gilydd drwy'r adeg anodd hwn.

Gobeithir, trwy nerth Duw, y byddwn i gyd yn gallu parhau i gysylltu a bod yn gefn i'n gilydd. Dyma anogaeth Chwiorydd y Byd i ni yn yr Oedfa Weddi Fydeang eleni: "Rydym gyda'n gilydd yn hyn, felly gadewch i ni sefyll gyda'n gilydd yn ein gweddïau dros ein gilydd ar yr adeg anodd hwn".

(Hoffwn ddiolch yn fawr i Bonni am ei holl waith caled ac am annog pobl i ysgrifennu a chyfrannu i'r Cwlwm hwn. Gol)

Atgofion



Cwmni Drama Nadolig, Ysgol Sul Noddfa, Llanbed

Bu'r chwe mis diwethaf yn gyfnod rhyfedd, heriol a phryderus iawn i bawb.

Fel nifer ohonoch bu'n rhaid i Derek a finnau hunan ynysu gan ein bod dros 21 oed!! Mae ein diolch yn fawr i Dduw am ein cynnal ac i gymdogion a ffrindiau am bob cymorth. Bu Elliw o Glwb Ffermwyr Ifanc Bro'r Dderi yn siopa i ni yn wythnosol ac roedd sgwrsio gyda hi drwy'r ffenest yn codi calon gyda'i chymeriad hoffus a'i gwên

ddireidus.

Cyn y cyfnod Clo roedd trigolion Ceredigion yn brysur yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Sefydlwyd Côr Bytholwyrdd yn Llambled er mwyn cystadlu yn y gystadleuaeth i rai dros 60 oed. Ymaelododd bron i gant ohonom o ardal eang iawn dan arweiniad ysbrydoledig Rhiannon Lewis a'i ffrind Lois Williams yn cyfeilio - y 'Dream Team' yn ôl aelodau'r Côr!! Mae Rhiannon yn meddu ar ddawn arbennig fel arweinydd a'i brwdfrydedd heintus a'i hiwmor iach yn ychwanegu tuag at fwynhad ei chantorion. Pleser oedd perfformio yn gyhoeddus am y tro cyntaf mewn noson o Garol, Cerdd a Chân yn Eglwys San Pedr er budd Cymorth Cristnogol ym mis Rhagfyr y llynedd - profiad gwefreiddiol. Bu canmoliaeth uchel iawn i'n datganiad o'r gwaith corawl 'Fe gawn Ddawnsio' gan Eric Jones ac mae'n werth rhannu ychydig o eiriau Rhys Nicholas gyda chi,

*Mentrwn oll yn llon at ffrindiau,
Codi wnawn ei faner Ef,
Baner rhyddid, baner cariad,
Rhyfedd gariad Duw y nef,
Fe gawn ddawnsio, fe gawn ddawnsio a'i glodfori yn gytûn,
Fe gawn ddawnsio, fe gawn ddawnsio wrth groesawu Mab y Dyn.*

Er siom i bawb daeth pob digwyddiad i ben ar Fawrth 23ain. Bu Bedyddwyr cylch Llambled yn ffodus i fedru mwynhau oedfaon ar YouTube ac ar Zoom ers mis Ebrill. Diolch yn fawr i'n Gweinidog y Parchedig Densil Morgan a hefyd i Delyth Morgans Phillips am roi'r cyfan ar y we.

Yr hyn rwyf wedi ei golli fwyaf yn ystod y cyfnod clo yw'r Ysgol Sul bob nos Wener. Rwyf yn arweinydd yn Noddfa ers canol yr wythdegau ac yn dal i fynd!! Mae ambell un yn dweud wrtha i, "Pam ti'n ffwdanu gyda'r Ysgol Sul dy oedran di?"

Fy ateb yw "Tra fy mod yn cael nerth a iechyd a'r pleser o weithio gyda'r plant, fe fydda i'n cario mlaen". Maent yn codi gwên yn aml. Rwy'n cofio dysgu emynau'r Gymanfa Ganu iddynt a holi pa rai oedd eu ffefrynnau. Roedd y bechgyn bob amser yn cadw at yr un

emyn sef Emanwêl. A dyma ofyn y rheswm pam.

“Ni’n hoffi’r geiriau”, atebodd un o’r bechgyn â gwên fawr. Ac meddai ei ffrind,

“Mae un rheswm BACH arall, mae Emanwêl yn chwarae pêl-droed i Manchester United!!” Wrth baratoi ar gyfer ein cwrdd Diolchgarwch dyma ofyn i’r plant ysgrifennu rhestr o’r pethau y dylid diolch amdanynt. Ymateb un o’r rhai lleiaf oedd “Diolch am Iesu Grist a Janet”. Dyma beth sy’n gwneud y cyfan yn werth chweil. Mae cael fy nghynnwys yn yr un frawddeg â Iesu Grist yn anrhydedd!

Cynhelir yr Ysgol Sul trwy gyfrwng Zoom yn ystod yr wythnosau nesaf. Er mai o bell, hyfryd bydd gweld ein gilydd a pharhau i ddysgu am Iesu Grist.

Edrychwn ymlaen i’r dyfodol yn y gobaith bod dyddiau gwell i ddod. Gweddiwn ar i Dduw ein cynorthwyo ar y daith.

Janet Evans, Llanbed

Y Geiriau Mwyaf Pwysig

Y 6 gair mwyaf pwysig yw:

Rwy’n cyfadde i mi wneud camgymeriad.

Y 5 gair mwyaf pwysig yw:

Fe wnest ti waith da.

Y 4 gair mwyaf pwysig yw:

Beth yw dy farn?

Y 3 gair mwyaf pwysig yw:

Os gweli’n dda.

Y 2 air mwyaf pwysig yw:

Diolch iti.

Yr 1 gair mwyaf pwysig yw:

Ni.

Blanced Gobaith o Liwiau'r Enfys

Mae'r mwyafrif ohonom â gwlân sbâr yn ein cartrefi a chan fod yna gymaint o ddiddordeb wedi bod yn ystod y misoedd diwethaf mewn creadigrwydd a chrofftio, beth am roi cynnig ar wau neu grosio sgwariau? Mae'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn apelio arnom i wau sgwariau 8 modfedd er mwyn iddynt gael eu pwytho at ei gilydd i greu un flanced enfys enfawr.

Dywed yr amgueddfa fod enfys yn aml yn cael ei defnyddio fel arwydd o heddwch a gobaith. Mae'n ymddangos pan ddaw'r haul allan ar ôl cawod o law. Caiff enfys ei defnyddio i'n hatgoffa fod golau ar ben draw'r twnnel ar ôl cyfnod tywyll. Ar ôl i'r flanced gael ei gorffen fe'i harddangosir yn yr amgueddfa am gyfnod. Yn y man bydd yn cael ei datod i greu blancedi bychain a'u dosbarthu i elusenau gwahanol. Dyma'r patrwm, ac fe ofynnir i bawb bostio'r sgwariau i'r Amgueddfa yn Nrefach Felindre erbyn diwedd 2020.

PATRWM SGWÂR

Anghenion:

Gwlân dwbl (*DK*) o liwiau'r enfys
Gweill 4.50mm neu maint saith

Cyfarwyddiadau:

Ystofi (*cast on*) digon o bwythau i wneud sgwâr 8 modfedd (20cm), fel arfer rhwng 35 i 40 o bwythau.

Gwiriwch y tyniant ar ôl gwneud tair neu bedair rhes i sicrhau fod y gwaith yn mesur 8 modfedd (20cm). Addaswch y nifer pwythau os fydd angen.

Gall sgwâr fod yn unlliw neu'n unrhyw gyfuniad o liwiau'r enfys.

Cwblhewch y sgwâr mewn pwyth gardas (*garter stitch*). Sicrhewch ei fod yn mesur 8 modfedd sgwâr ac yna caewch y pwythau (*cast off*).

Gadewch gynffon o 20 modfedd (50 cm) i wnio'r sgwariau at ei gilydd. Gweithiwch unrhyw edau rydd arall i mewn i'r gwaith.

Hwyl ar y gwau!

Ruth Davies

